



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adolygiad Blynyddol 2022/23



CYNNWYS

Tudalen 2 -Cynnwys

Tudalen 3 -Cyflwyniad a throsolwg gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Tudalen 4 -Pwy ydym ni

Tudalen 5 -Trosolwg o'n gweithgarwch

Tudalen 6 -Trosolwg o'n perfformiad

Tudalen 9 -Cipolwg ar rai o'n datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Tudalen 14 -Ein cynllun ar gyfer y dyfodol

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn grynodeb o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23.

Gallwch lawrlwytho copïau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd <https://bipbc.qig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/>

neu maent ar gael ar gais gan Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, drwy ffonio 03000 840008 neu drwy anfon e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Adolygiad Blynyddol 2022/23

Cyflwyniad a throsolwg gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr



Heb os, bu'n flwyddyn anodd a chythryblus iawn i'r sefydliad. Mae nifer o adolygiadau ac adroddiadau beirniadol wedi nodi methiannau sylweddol ar rai agweddau ar ein prosesau a'n perfformiad, gan arwain at benderfyniad Llywodraeth Cymru i symud statws monitro'r Bwrdd Iechyd i fesurau arbennig. Law yn llaw â hyn, cafwyd rhai newidiadau mawr ar lefel y Bwrdd, gan gynnwys ein penodi ni ym mis Chwefror a mis Mai 2023.



Digwydd hyn ar adeg pan rydym yn dal i geisio mynd i'r afael â chanlyniadau pandemig Covid-19. Er bod yr aflonyddwch o ganlyniad i Covid ei hun wedi lleihau, rydym bellach yn wynebu'r her enfawr o leihau rhestrau aros ac ymdopi â thwf sylweddol mewn galwadau brys.

O ganlyniad, rydym yn canolbwyntio ar yr anawsterau mae cleifion yn eu profi wrth gael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys lleihau'r pwysau ar ein hadrannau brys a gweithio i gael effaith gadarnhaol ar yr anawsterau y mae unigolion yn eu hwynebu wrth geisio cael triniaeth ddeintyddol reolaidd ar y GIG.

Ar yr un pryd, mae'r cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithio ynddo, yn y tymor byr a'r tymor hwy, yn arbennig o heriol. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r diffyg ariannol ac rydym yn parhau i wynebu prinder staff a achosir gan farchnad recriwtio anodd mewn nifer o ddisgyblaethau iechyd.

Serch hynny, mae gennym ni resymau dros fod yn obeithiol. Ni ddylem fyth anghofio bod miloedd lawer o bobl ledled Gogledd Cymru yn cael gofal iechyd, cymorth a thriniaeth o ansawdd uchel. Daw hyn o ganlyniad i ymroddiad parhaus ac arbenigedd ein staff. Hoffem dalu teyrnged iddynt a chynnig ein diolch o waelod calon am bopeth a wnânt i ofalu am ein cleifion a'r gymuned yn ehangach.

Ers ymuno â'r Bwrdd Iechyd mae gwytnwch a brwdfrydedd y staff rheng flaen a'r staff cymorth yr ydym wedi'u cyfarfod ar draws y rhanbarth, a'u hymrwymiad i'r cleifion rydym yn eu gwasanaethu, wedi creu argraff arnom ni'n dau. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau gwych o arloesi a gwelliannau lleol. Dyna pam, er gwaethaf yr anawsterau sy'n wynebu'r sefydliad, rydym ni'n obeithiol y byddwn yn gwneud cynnydd yn y dyfodol.

Er enghraifft, y llynedd, cynyddwyd nifer y triniaethau dewisol gan 5.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hynny er gwaethaf cynnydd o 6.2% yn ein derbyniadau brys. Ein gwasanaethau Gynaecoleg oedd y ddisgyblaeth gyntaf yng Ngogledd Cymru i berfformio llawfeddygaeth drwy gymorth robot ac fe lansiodd clinig diagnosis cyflym ar yr un diwrnod gennym ar gyfer cleifion â lymphiau amheus yn eu gwddf.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all y Bwrdd Iechyd ddatblygu a ffynnu ar ei ben ei hun. Rydym yn rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol llawer ehangach sy'n cynnwys contractwyr annibynnol, gwasanaethau awdurdodau lleol megis gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, y Gwasanaeth Ambiwylans a chyrrff eraill y GIG, ynghyd ag addysg uwch yng Ngogledd Cymru a thu hwnt. Rydym ni i gyd yn wynebu heriau cyffelyb o ran bodloni galw o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Byddwn yn parhau i feithrin perthnasoedd a gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr mewn asiantaethau eraill er mwyn gwneud y mwyaf o'n galluoedd cyfunol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y poblogaethau rydym ni'n eu gwasanaethu. Rydym yn gwybod y gallwn ni gyflawni mwy drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid a thrwy fod yn agored i ddysgu gan eraill.

Amlygir hyn gan ein gwaith i gefnogi hyfforddi a datblygu gweithwyr iechyd proffesiynol yn lleol, sy'n elfen allweddol wrth fynd i'r afael â heriau recriwtio. Yn ystod y flwyddyn, gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Cyfadran Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol Cymru Gyfan (AWFDCP) a darparwyr deintyddol ledled y rhanbarth, agorwyd cam cyntaf arloesol Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru. Ym mis Medi 2024, bydd myfyrwyr yn dechrau eu hastudiaethau ar y rhaglen radd feddygol lawn gyntaf yng Ngogledd Cymru, diolch i'r cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd, Prifysgolion Bangor a Chaerdydd a darparwyr gofal sylfaenol ledled Gogledd Cymru.

Nid oes amheuaeth na fydd y flwyddyn hon yn heriol. Ond rydym ni'n hyderus y bydd y cynlluniau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu yn sicrhau bod y sefydliad yn symud i'r cyfeiriad cywir, gan groesawu gwelliannau a mwy o sefydlogrwydd.

Pwy ydym ni

Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl yn ogystal â gwasanaethau ysbytai aciwt.



Rydym yn gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ac 19 ysbyty cymunedol, ynghyd â rhwydwaith o ganolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd carchar i CEF Berwyn, Wrecsam.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 96 o bractisau meddygon teulu, yn ogystal â gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan 83 o bractisau deintyddol ac orthodonteg, 69 o bractisau optometreg ac optegwyr a 147 o fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

Rydym hefyd yn gyfrifol, mewn partneriaeth, am wella iechyd a lles pobl leol drwy weithgareddau megis ein rhaglenni brechu llwyddiannus a gwasanaethau iechyd ysgolion.

Trosolwg o'n gweithgarwch

Dyma gipolwg o'r gwasanaethau y mae ein staff yn eu darparu a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rheiny.



Mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau cleifion â'r gwasanaethau iechyd – tua phedwar o bob pump – yn digwydd yn y gymuned, mewn practisau meddygon teulu, fferyllfeydd, gwasanaethau deintyddol, gwasanaethau optometreg neu gartrefi'r cleifion eu hunain er enghraifft.

Yn 2022/23:

- Cynhaliwyd 57,905 o ymgynghoriadau mewn fferyllfeydd o dan y Cynllun Anhwylderau Cyffredin
- Cynhaliwyd 36,102 o ymgynghoriadau gwasanaethau meddyginiaethau brys gan fferyllfeydd
- Derbyniodd 21,096 o bobl driniaeth ddeintyddol gan y GIG

Bu'n flwyddyn brysur hefyd i'n hysbytai gyda lefelau uwch o weithgarwch ar draws bron pob maes; adlewyrchiad o'r pwysau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wynebu o ran gwasanaethau brys a'r gwaith i gynyddu ein triniaethau wedi'u cynllunio wrth i ni weld cyfnod o adfer ar ôl y tarfu yn sgîl pandemig Covid-19.

Yn 2022/23:

- Cynhaliwyd 721,515 o apwyntiadau cleifion allanol mewn ysbytai
- Gwelwyd 222,786 o bobl yn mynychu Adrannau Achosion Brys neu Unedau Mân Anafiadau
- Cyflawnwyd 11,591 o weithredoedd wedi'u cynllunio
- 94,303 o lawdriniaethau achosion dydd
- 5,648 o enedigaethau



Mae ein gwasanaethau Therapi yn rhan hanfodol o'r system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan ac yn ystod y flwyddyn bu:

- 119,272 o gyfeiriadau newydd
- 37,113 o gyfeiriadau at y Gwasanaeth Asesu/Therapi Cyhyrsgerbydol Clinigol

O ganlyniad :

- cafwyd 78,667 o apwyntiadau cleifion allanol newydd
- 237,099 o apwyntiadau dilynol
- 327,431 o gleifion wedi'u trin/gweld yn yr ysbyty

Mae gwasanaethau Nyrsio Ardal yn darparu gofal 24 awr yn y gymuned a lleoliadau y tu allan i ysbytai. Yn ystod 2022/23 mae ein Nyrsys Ardal:

- wedi cynnal 687,000 o ymweliadau, gyda thua 161,000 ohonynt yn digwydd y tu allan i oriau craidd a 100,000 ar y penwythnos i sicrhau ystod o wasanaethau sydd yn deg ac yn hygyrch.

Trosolwg o'n perfformiad

Roedd 2022/23 yn flwyddyn weithredu heriol i'r Bwrdd Iechyd. Ar ddechrau'r flwyddyn, cytunodd y Bwrdd ar gynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2022-25 i fodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogol. Fodd bynnag, ni chymeradwywyd hyn gan Lywodraeth Cymru ac yn hytrach, gweithiodd y Bwrdd ar weithredu gofynion y flwyddyn gyntaf fel cynllun gweithredol blynyddol.



Yn ystod y flwyddyn, parhaodd pandemig Covid-19 i gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd. Y dybiaeth o ran cynllunio ar gyfer gaeaf 2022/23 oedd y byddai'r sefyllfa yn un "Covid sefydlog", gyda thonnau pellach o'r haint yn cael eu rhagweld. Ni ddigwyddodd hyn i'r graddau eu bod yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, ond fe wnaeth effeithio ar amseroedd aros i gael mynediad at wasanaethau ar draws ystod o wasanaethau.

Cyfrannodd effaith barhaus y pandemig hefyd at bwysau arall ar y system, gan gynnwys diffygion yn y gweithlu ar draws y system iechyd a gofal gyfan (sectorau statudol ac annibynnol); yr angen am gymorth cynyddol o ran iechyd meddwl; iechyd a lles plant, a heriau parhaus o ran cyflawni'r lefelau gweithgarwch angenrheidiol i fynd i'r afael ag amseroedd aros hirach a gynyddodd yn ystod y pandemig.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig; y lefel uchaf o ymyrraeth yn y fframwaith uwchgyfeirio.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwybod bod yn rhaid i bethau newid. Mae gennym gyfle i ddysgu o'n taith a'n profiadau hyd yn hyn, i ddatblygu gwelliannau gwirioneddol a pharhaol i iechyd a gofal pawb ar draws Gogledd Cymru. Rydym yn gwybod bod pobl yn rhwystredig ynghylch faint o amser y mae'n rhaid iddynt aros am apwyntiadau, boed hynny mewn gofal sylfaenol, lleoliadau cymunedol neu yn un o'n safleoedd ysbytai aciwt.

Rydym am wella ein gwasanaethau ar gyfer y bobl sy'n gweithio ynddynt a'r rhai sy'n eu defnyddio. Mae gennym staff gwych ar draws y Bwrdd Iechyd ac rydym am

wneud yn siŵr bod BIPBC yn lle gwyh i weithio gyda'r gallu i ddenu, cadw a datblygu staff ar bob lefel. Mae llawer o'r pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â sut mae'r Bwrdd Iechyd (ein Llywodraethu) wedi'i strwythuro ac rydym yn cydnabod, er mwyn gallu darparu'r iechyd a'r gofal gorau posibl i bawb, bod yn rhaid i ni fod wedi ein strwythuro yn y ffordd orau bosibl fel sefydliad ac fel Bwrdd o bobl sy'n gyfrifol am ofal iechyd.



Mae ein staff, ein timau a'n cymunedau yn haeddu'r gorau ac rydym wedi ymrwmo i gydweithio i'w ddarparu. Mae ein hymateb i gael ein rhoi dan Fesurau Arbennig yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i sicrhau:

- Ein bod yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda
- Bod gennym gynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24
- Bod ein harweinyddiaeth a'n hymgysylltiad yn gryfach
- Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i bobl
- Ein bod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn hunanwella

Dyma'r hyn yr ydym yn ei alw'n bum canlyniad craidd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n timau a'n cydweithwyr ar draws pob maes, gwasanaeth a chyda Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn gallu gwella ym mhob maes, nid yn unig ar hyn o bryd ond hefyd i'r dyfodol pell.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn codwyd nifer o faterion cymhleth ac anodd eraill gyda'r Bwrdd:

- Mae amseroedd aros ar gyfer nifer o lawdriniaethau, fel cymalau newydd neu lawdriniaeth llygaid, wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig ac er ein bod wedi dechrau lleihau rhai o'r amseroedd aros hiraf, mae llawer mwy i'w wneud a bydd hyn yn gofyn am newidiadau i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.
- Mae gwasanaethau gofal sylfaenol wedi bod dan bwysau eithriadol o ran galwadau, ac wedi gorfod addasu'n gyflym i fynd i'r afael ag angen cynyddol yn y gymuned ar adeg o anawsterau recriwtio cynyddol.
- Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi profi anawsterau tebyg o ran gallu darparu'r staff sydd eu hangen i ofalu am unigolion yn eu cartrefi eu hunain neu leoliadau cartrefi gofal, gyda'r galw yn fwy na'r capasiti.
- Mae ein gallu i symud cleifion drwy ein hysbytai wedi'i effeithio gan yr anawsterau y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u profi o ran gallu darparu'r staff sydd eu hangen i ofalu am unigolion yn eu cartrefi eu hunain neu gartrefi gofal. O ganlyniad i hyn, yn ogystal â phwysau arall o fewn ac ar ein sefydliad, mae gormod o bobl wedi aros am gyfnodau annerbyniol o hir mewn ambiwlansys cyn cael eu derbyn i



Adrannau Achosion Brys, cyn cael eu gweld gan glinigwr ar gyfer asesiad mewn Adrannau Achosion Brys neu cyn cael eu derbyn i wely yn yr ysbyty yn dilyn yr asesiad hwn.

- Fel llawer o sefydliadau'r GIG, rydym yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff mewn nifer o arbenigeddau a grwpiau staff, ac mae hyn yn cynnwys ein huchelgais i gynyddu sgiliau dwyieithog; ac
- Mae sefyllfa economaidd y DU gyfan a chostau byw cynyddol wedi cael effaith andwyol ar y boblogaeth, ein staff, a chost y cyflenwadau a'r ynni a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio i ymateb i'r heriau hyn. Llunio a chyflawni gwelliannau i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy a gwella'r profiad a gaiff ein cleifion, ein cymunedau a'n staff.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau cynnydd mewn rhai meysydd yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd lefelau ein gweithgarwch ym mron pob agwedd ar ein gwasanaethau a llwyddodd ein staff i gyflawni nifer o brosiectau a datblygiadau strategol allweddol. Bydd cyflwyno strwythur ein Cymunedau Iechyd Integredig yn helpu i ddatblygu ein perthnasoedd ymarferol ag awdurdodau lleol, yn enwedig ynghylch gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac mae cynlluniau megis y model Rhyddhau i Asesu sy'n cael ei gyflawni ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i fynd i'r afael ag anawsterau o ran llif cleifion sy'n deillio o'r heriau y mae'r sector gofal ehangach yn eu hwynebu.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i weithredu o fewn y cyllid sydd ar gael iddo dros gyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, llwyddwyd i sicrhau hyn â chymorth rhywfaint o ffynonellau achlysurol o nawdd a chymorth strategol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phwysau o ran costau penodol yn ystod y cyfnod hwn, ac mae angen cyflawni rhagor o waith yn ystod y flwyddyn bresennol i ddatrys y diffyg ariannol sylfaenol.



2022/23 - Cipolwg ar rai o'n datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol arall i'r Bwrdd Iechyd, yn sgil cyhoeddi nifer o adroddiadau beirniadol ac uwchgyfeirio i statws Mesurau Arbennig.


Betsi Cadwaladr: NHS health board back in special measures

Damning Audit Wales report finds 'deeply worrying dysfunctionality' at Betsi Cadwaladr health board

Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd staff yn mynd ati'n feunyddiol i wneud pethau gwych i gynorthwyo cymunedau ledled Gogledd Cymru a chynorthwyo'i gilydd. Yn ein barn ni, mae'n bwysig i ni rannu'r straeon rhyfeddol hyn, er mwyn dathlu eu hymrwymiad a'u hymroddiad a hefyd i wella dealltwriaeth pobl ynghylch y gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sut y gallant eu cyrchu'n briodol.

Ebrill 2022: Bwriad i ehangu gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer mamau newydd a beichiog

Fe wnaethom gyhoeddi y byddai gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer mamau newydd a beichiog yng Ngogledd Cymru yn cael ei ehangu'n sylweddol.



Bydd buddsoddiad yng Ngwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sicrhau y bydd merched sy'n profi anawsterau iechyd meddwl canolig neu ddifrifol yn ystod beichiogrwydd neu'r flwyddyn ar ôl geni plentyn yn gallu cael cymorth arbenigol yn gynt.

Ar ôl recriwtio'r holl staff ychwanegol, y gwasanaeth hwn fydd y cyntaf yng Nghymru i gyflawni safonau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ynghylch staffio gwasanaethau amenedigol yn y gymuned.

Mai 2022: Rhoi dros 1.6 miliwn o frechlynnau COVID-19 i bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Ngogledd Cymru

Ym mis Mai, rhoddwyd dros 1.6 miliwn o frechlynnau COVID-19 i bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Ngogledd Cymru.

Gwaith caled ein staff a'n gwirfoddolwyr a sicrhodd y llwyddiant sylweddol hwn, ac fe wnaeth hynny gyfrannu'n allweddol at yr ymateb i bandemig COVID-19.



Ar y pryd, roedd dros 50,000 o bigiadau wedi'u rhoi fel rhan o ymgyrch pigiadau atgyfnerthu yn y Gwanwyn - y nifer fwyaf hynny - ac yn dilyn hynny, cyflawnwyd ymgyrch pigiadau atgyfnerthu ehangach yn yr Hydref.

Mehafin 2022: Bydd Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys newydd yn helpu i leihau'r pwysau ar feddygon teulu ac Adran Achosion Brys



Fe wnaethom ni gyhoeddi y byddai tair Canolfan Gofal Sylfaenol Brys (CGSB) yn cael eu sefydlu ledled Gwynedd ac Ynys Môn i helpu i leddfu'r pwysau ar feddygon teulu ac Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau nawdd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaeth a fydd yn efelychu'r CGSB sydd eisoes wedi'u sefydlu yn Wrecsam a Sir y Fflint.

Fel rhan o'r cynllun, sefydlwyd tair canolfan gofal sylfaenol yn Ysbyty Alltwen, yn Ysbyty Penrhos Stanley ac yn yr adran cleifion allanol yn Ysbyty Gwynedd.

Fe wnaeth y prosiect dargedu achosion gofal sylfaenol brys y gellir eu trin ar yr un diwrnod, gan greu capasiti i gynorthwyo meddygon a lleihau nifer y bobl sy'n mynd i'r Adran Achosion brys yn ddiangen.

Gorffennaf 2022: Prosiect arloesol i drin Hepatitis C yn helpu rhagor o bobl fregus i gael profion a thriniaethau

Yng Ngorffennaf, fe wnaethom ni gyhoeddi y byddai prosiect allgymorth arobryn sydd wedi helpu dwsinau o'r bobl fwyaf bregus yng Ngogledd Cymru i gael triniaethau Hepatitis B yn cael ei gyflwyno ym Mangor.



Dyweddodd tîm rhaglen Profion a Thriniaethau Cyflym y Bwrdd Iechyd bod eu dull eisoes wedi cynorthwyo pobl o gymunedau sydd ar y cyrion yn Wrecsam a'r Rhyl i allu cael meddyginiaethau a allai achub bywyd yn gynt.

Mae eu dull newydd arloesol - y cyntaf o'i fath yng Nghymru - wedi sicrhau y gall pobl ddigartref a phobl eraill sydd dan anfantais yn gallu cael profion yn haws ac yn gyflymach.

Awst 2022: Cleifion yn elwa yn sgil ehangu Ysbyty Maelor Wrecsam i gampws parc technoleg

Bydd cleifion Ysbyty Maelor Wrecsam yn elwa yn sgil adeilad pwrpasol newydd ar gyfer cleifion allanol, ar ôl prynu Plas Gororau, ym Mharc Technoleg Wrecsam.



Fe wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr brynu'r adeilad, â chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, er mwyn gallu symud gwasanaethau cleifion

allanol yno ac ehangu'r Adran Achosion Brys a'r manau clinigol yn safle'r prif ysbyty.

Bydd rhai o'r gwasanaethau i gleifion allanol sy'n cael eu cynnig yn y prif ysbyty ar hyn o bryd yn cael eu symud i adeilad Tŷ Derbyn, sydd ar dir yr ysbyty, a bydd gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn Nhŷ Derbyn ar hyn o bryd nad oes angen eu lleoli mewn ysbyty aciwt yn cael eu symud i adeilad Plas Gororau.

Medi 2022: Y cleifion cyntaf yng Nghymru yn cael llawdriniaethau â chymorth robot fel rhan o raglen genedlaethol arloesol

Bellach, mae robotiaid llawfeddygol o'r radd flaenaf yn helpu i drin cleifion canser y colon a'r rhefr a chanser gynaeolegol yng Nghymru fel rhan o raglen genedlaethol newydd Llawdriniaeth â Chymorth Robot.



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu'r Rhaglen Genedlaethol Llawfeddygaeth â Chymorth Robot i wella canlyniadau i gleifion y mae canser arnynt trwy gynyddu nifer y cleifion ledled Cymru sy'n gallu cael llawfeddygaeth leiaf ymyrrol (MAS), sy'n llai mewnwithiol. Mae MAS yn cynnig buddion amlwg iawn i'r cleifion o gymharu â llawdriniaethau agored, yn cynnwys llai o boen a chreithiau ac adfer yn gyflymach.

Cynhaliwyd y llawdriniaethau cyntaf â chymorth robot yn y Gwasanaeth Gynaeolegol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gynharach ym mis Medi.

Hydref 2022: "Mae lludded yn sgil cemotherapi yn fy llesgáu yn arw - ond mae clinig newydd wedi fy helpu i gynllunio pethau'n well"

Gall cleifion sy'n cael traferth gydag un o sgîl-ffeithiau diagnosis a thrin canser sy'n cael ei drafod leiaf gyfeirio eu hunain at wasanaeth hanfodol.



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Macmillan yn mynd i'r afael yn bendant â Lludded sy'n Gysylltiedig â Chanser fel rhan o raglen y mae galw mawr amdani.

Bydd cymaint â naw o bob deg o bobl yn cwyno am flinder neu ludded rywbyrd yn ystod taith eu triniaeth canser.

Tachwedd 2022: Academi Ddeintyddol Newydd yn anelu at fynd i'r afael â phrinder cronig o ddeintyddion y GIG yng Ngogledd Cymru


Mae practis deintyddol newydd wedi agor ei ddrysau ym Mangor, gan gwblhau cam cyntaf cynllun uchelgeisiol i fynd i'r afael â phrinder cronig o ddeintyddion y GIG ledled Gogledd Cymru.



Yn ogystal â darparu gwasanaethau deintyddol y GIG y mae galw mawr amdanynt i filoedd o gleifion lleol bob blwyddyn, bydd y fenter newydd a chyffrous hon ar Stryd Fawr y ddinas yn cyflawni rôl arweiniol ym maes hyfforddi gweithwyr proffesiynol deintyddol ledled y rhanbarth yn fuan.

Lleolir Academi Ddeintyddol Bangor yn adeilad eang Tŷ Glyder, sydd wedi'i adnewyddu am gost o £1.6m, ac mae'n rhan o ymdrechion uchelgeisiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddenu, hyfforddi a chadw mwy o weithwyr proffesiynol deintyddol, mewn ymateb i brinder ledled y DU.

Rhagfyr 2022: Ap Newydd i gynnig cyngor a chymorth dibynadwy ar faeth a gweithgarwch corfforol i ferched beichiog



Mae ap ffôn symudol, y cyntaf o'i fath, wedi cael ei lansio i helpu i gynorthwyo merched beichiog trwy wybodaeth gan weithwyr proffesiynol y GIG y gallant ddibynnu arni.

Mae'r Ap, o'r enw Doeth am Fwyd yn ystod Beichiogrwydd yn cynnwys chwe adran y gallwch weithio trwyddynt yn eich amser eich hun yn cynnwys ryseitiau, awgrymiadau siopa a chynllunydd prydau bwyd, yn ogystal ag ymarferion cam wrth gam sy'n ddelfrydol ar gyfer beichiogrwydd. Mae'r Ap hefyd yn caniatáu i bobl bennu nodau trwy gydol eu beichiogrwydd, cofnodi gweithgarwch o ran bwyd ac ymarferion corff, ac mae'n cynnwys gemau, cwisiau, ac offer rhyngweithiol.

Mae Andrea Basu, sy'n Ddeietegydd Iechyd Cyhoeddus a chydweithwyr deieteg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi bod yn gweithio gyda Sgiliau Maeth am Oes, sy'n sefydliad sy'n cynnwys deietegwyr a maethgwyr o Fyrddau Iechyd ar draws Cymru, i helpu i gynllunio, datblygu ac adolygu cynnwys ar gyfer yr Ap.

Ionawr 2023: Y nifer uchaf o bobl erioed yn derbyn cymorth mewn fferyllfeydd a meddygfeydd, gan fod gwasanaethau iechyd 'mewn trafferthion enbyd'

Mae ffigurau newydd wedi dangos y rôl hollbwysig y mae fferyllfeydd a phractisau meddygon teulu wedi'i chyflawni o ran rhoi cymorth i'r GIG yn ystod y cyfnod prysuraf yn ei hanes. Gan fod y gwasanaeth iechyd yn profi'r galw uchaf yn ystod y cyfnod hwnnw, mae miloedd o bobl ar draws Gogledd Cymru wedi troi at eu fferyllfa leol er mwyn manteisio ar ofal - a hynny'n aml am y tro cyntaf.



Yn y cyfamser, gwnaeth practisau meddygon teulu, a oedd eisoes yn darparu mwy o ymgynghoriadau â chleifion nag erioed o'r blaen, sôn hefyd am ymchwydd ychwanegol a sylweddol yn y galw.

Soniodd fferyllfeydd cymunedol yng Ngogledd Cymru am gynydd o 345 y cant yn nifer y bobl a oedd yn ceisio meddyginiaethau brys yn ystod mis Rhagfyr 2022, o gymharu â'r un cyfnod yn 2021, a chafodd 3,229 o ymgynghoriadau eu cynnal. Gwnaeth ymgynghoriadau o dan Wasanaeth Anhwylderau Cyffredin fferyllfeydd cymunedol hefyd gynyddu o 177 y cant yn ystod yr un cyfnod, gyda 6,278 yn elwa o'r cynllun, sy'n cynnig cyngor a thriniaeth i anhwylderau cyffredin nad oes modd eu rheoli trwy hunanofal, gan osgoi'r angen am apwyntiad meddyg teulu

Chwefror 2023: Gwahodd y cyhoedd i ddweud eu dweud ar gynlluniau ar gyfer uned iechyd meddwl 'o'r radd flaenaf' yn Sir Ddinbych



Cafodd cynlluniau ar gyfer uned iechyd meddwl cleifion mewnol 'o'r radd flaenaf' a maes parcio aml-lawr yn Ysbyty Glan Clwyd eu harddangos i'r cyhoedd.

Gwahoddir pobl i rannu eu hadborth ar gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer yr uned 63 gwely newydd a'r maes parcio aml-lawr cyn i gais cynllunio llawn gael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych.

Bydd yr uned newydd, a allai gostio hyd at £84.5 miliwn, yn cymryd lle Uned Ablett yr ysbyty a'r cyfleuster cleifion mewnol iechyd meddwl i bobl hŷn ym Mryn Hesketh, Bae Colwyn.

Cafodd y cynlluniau eu datblygu yn dilyn ymgysylltu cynhwysfawr â chleifion, gofalwyr, staff, sefydliadau partner a'r cyhoedd ehangach.

Mawrth 2023: 'Maen nhw wedi fy helpu i ddysgu cerdded a siarad eto': Canolfan adsefydlu strôc newydd yn agor yn Llandudno

Gwnaeth canolfan adsefydlu strôc newydd agor yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y siawns orau o adferiad da ar ôl cael strôc.

Un o'r cleifion cyntaf yn y ganolfan adsefydlu oedd Ann Ellis, 78 oed o Fagillt. Cafodd Ann strôc ar Noswyl Nadolig a chafodd ei chludo i Ysbyty Glan Clwyd ac yna ei throsglwyddo i Landudno dair wythnos yn ddiweddarach.



Pan gyrhaeddodd Ann am y tro cyntaf, roedd yn ei chael yn anodd siarad, cerdded a symud ei braich dde, ond diolch i gefnogaeth ystod lawn o staff arbenigol amlddisgyblaethol gan gynnwys Ffisiotherapyddion, Nyrsys, Meddygon, Seicolegwyr, Therapyddion Iaith a Lleferydd a Therapyddion Galwedigaethol, gall Ann gyfathrebu unwaith eto ac mae'n dysgu cerdded gyda chymorth.

Ein cynllun ar gyfer y dyfodol

Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo cynllun tair blynedd am y cyfnod o 2022 hyd at 2025, a oedd yn cynnwys camau gweithredu i gydymffurfio â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-25. Yn ogystal, gwnaeth ein cynllun nodi sut y byddai'r Bwrdd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion a mesurau a geir yn y Fframwaith Cynllunio a'r rhain oedd:



- Cymru Iachach - fel y cyd-destun polisi cyffredinol;
- Iechyd y boblogaeth;
- Covid - ymateb;
- Adfer y GIG;
- Iechyd Meddwl a lles emosiynol;
- Rhoi cymorth i'r gweithlu iechyd a gofal;
- Cyllid y GIG a rheoli gyda'r adnoddau sydd ar gael;
- Gweithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol.

Nid oedd modd i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun hwn yn ffurfiol oherwydd nifer o heriau o ran darparu gofal iechyd ac felly, gwnaeth y Bwrdd weithio i gyflwyno blwyddyn gyntaf y cynllun hwn.

Ym mis Gorffennaf, derbyniodd y Prif Weithredwr gadarnhad, gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru, ynghylch yr amodau atebolwydd yr oedd disgwyl i'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni, ac a oedd yn sail i gyfarfodydd adolygu ac atebolwydd parhaus yn ystod y flwyddyn. Roedd yr amodau'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Egwyddor datblygu cynaliadwy "y pum ffordd o weithio"
- Strategaeth glinigol a mynd i'r afael â risgiau clinigol
- Gofal wedi'i gynllunio ymlaen llaw
- Gofal sylfaenol
- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Y Gweithlu
- Newid yn yr hinsawdd
- Effeithiau Ariannol

Yn ogystal, codwyd ystyriaethau pellach mewn perthynas ag iechyd meddwl a dementia, gwasanaethau niwroddatblygiadol, datblygu digidol ac ymateb i'r argyfwng costau byw.

Gwnaeth ein cynllun gydnabod y rhaglenni adfer, a ddatblygwyd wrth i ni symud oddi wrth bandemig Covid-19 i sefyllfa lle bo Covid-19 yn endemig o fewn ein poblogaeth. Roedd y gwaith hwn yn gofyn am gryn dipyn o waith mewn partneriaeth i gefnogi cymunedau sy'n agored i niwed a diogelu iechyd a lles y boblogaeth er mwyn cefnogi egwyddorion 'Cymru Iachach'.



Gwnaethom barhau gyda'n gwaith o ran sut rydym yn gweithio'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein busnes o ddydd i ddydd, er mwyn bodloni ysbryd a bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y Bwrdd Iechyd ynghyd â chyrrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru, i gyfrannu at gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol, i ehangu ein golygon ac i ystyried y tymor hir wrth wneud hynny. Yn ystod 2022/23, gwnaethom weithio gyda phartneriaid i adnewyddu'r cynlluniau llesiant lleol a oedd yn amlinellu ein nodau cyffredin yn y maes hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ar gryfhau ei ffocws ar iechyd y boblogaeth, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ar draws Gogledd Cymru. Yn ystod 2022/23, gwnaethom weithio gyda phartneriaid i ymateb i ganfyddiadau'r asesiad wedi'i ddiweddarau o anghenion iechyd y boblogaeth ranbarthol trwy ddatblygu cynllun ardal rhanbarthol sy'n ategu ein gweithgarwch cynllunio ochr yn ochr â chydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac mae ein rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' yn parhau i ddarparu ffocws ar gyfer y gwaith hwn yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno ystod o raglenni cenedlaethol fel sgrinio, brechu, ac iechyd plant ar y lefel leol.



Yn ogystal â gwella iechyd a darparu gwasanaethau clinigol a gofal, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a hybu grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol-economaidd.

Er mwyn cyflawni ein nodau, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleodd i gydweithio gymaint â phosibl. Mae'r chyrrff yn cynnwys:



- Cyngorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol a phartneriaid trydydd sector.
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam);
- Cydbwyllgor Canolbarth Cymru;
- Chyrrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (wedi'i ddisodli gan Llais o 1 Ebrill 2023);
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus /Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol;
- Partneriaeth Ranbarthol Cymunedau Mwy Diogel;
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambywlans Cymru;
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

